# CYNLLUN CYMUNEDOL

Fel y gwyddai sawl un ohonoch eisoes, mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan wedi comisiynu'r ymgynghorydd Marc Roberts i gyflawni Cynllun Cymunedol ar gyfer y pentref a'r fro.

Mae'r gwaith hwnnw'n parhau, ac mae nifer o syniadau cyffrous wedi'u crybwyll, ynghyd â llu o gyfleoedd ariannu y gellir manteisio arnyn nhw.

Dyma'r themâu allweddol caiff eu trafod. . .

- Tai
- Treftadaeth, Diwylliant a Thwristiaeth
- Plant, Teuluoedd a Phobl Ifanc
- Cymuned
- Yr Amgylchedd a Seilwaith
- Ynni Adnewyddadwy
- Menter a Busnes

Erbyn ichi ddarllen hwn, bydd Marc eisoes wedi bod yng Ngŵyl y Gwanwyn yn eich holi am eich barn. Byddai hefyd yn awyddus i glywed gan unrhyw un am eu syniadau a'u cynigion ar sut i wella Dolwyddelan ynghyd ag unrhyw broblemau neu bryderon yr hoffech chi sôn amdanyn nhw. Mae disgwyl y bydd Marc wedi cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Medi, ond bydd yn ymddangos mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol eraill rhwng rŵan a hynny. Caiff rhagor o ddiweddariadau eu rhannu yn y newyddlen ac ar wefan y Cyngor Cymuned.

Os hoffech chi gysylltu gyda Marc i wybod mwy neu i drafod unrhyw beth sy'n ymwneud â'r gwaith hwn, dyma'i gyfeiriad e-bost marc.evansroberts@gmail.com

*(Parhad o'r dudalen nesaf)*

a ffyniant ein cymuned. Rwy'n gobeithio y byddwch yn ymuno gyda ni ar gyfer y fenter dwf hon gan fod yn rhan weithgar o'r gwaith i ddatblygu cymuned fusnes cryfach a mwy cysylltiedig yn Nolwyddelan.
Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu awgrymiadau, mae croeso ichi gysylltu gyda mi yn uniongyrchol ar chris@snowdoniahub.co.uk.

Rwy'n edrych ymlaen gwrdd â chi'n fuan,

Cofion gorau,
Chris Davies
Perchennog Hwb Eryri / Snowdonia Hub
WhatsApp: 07891055925